AGIMAT:

Rhagarweiniad:

Agimat ydy arddangosda unigol gan Sadia Pineda Hameed sy'n archwilio'r hanes o wladychiaeth a swynbethau gwerin. Mae'r arddangosfa yn cymryd lle yn yr oriel hon, ac hefyd ar gomisiwn bwrdd posteri tu allan, sy'n cynnwys casgliad o wrthrychau, cerfluniau, a fideo.

Yn yr arddangosfa, mae Pineda Hameed yn archwilio hanesion personol, daearyddol, ac ysbrydol, yn enwedig trwy'r gred Ffilipinaidd mewn amwledau a thalismonau, a elwir 'Anting-Anting'.

Trosolwg byr o'r gofod:

Wrth ddod i mewn o'r siop, mae'r ganddo ddrws yr oriel trim bach ble mae'r llawr yn troi i bren. Mae'r oriel yn ofod agored, heb ffenestri. Mae'r llawr yn bren, gyda waliau tal a gwyn, a nenfwd uchel wyn. Mae'r arddangosfa yn cymryd lle yn yr ystafell oriel fan hyn, a hefyd ar y gomisiwn bwrdd posteri tu allan.

Darn 1: Worlding:

- Ar y wal i'ch dde wrth gamu mewn, ydy darn testun mawr o'r enw 'Worlding', sy wedi ei beintio syth arno'r wal mewn priflythrennau bloc gyda lliw glas cryf. Mae pob llythyren o'r ffont yn plygu ychydig, fel ton.
- • Gan ddechrau ar ben y wal dal ar y dde, mae pob pennill tair-linell wedi'i leoli i lawr y wal o'r dde i'r chwith, nes bod yr un olaf yn cyrraedd y gwaelod.
- Dyma'r gerdd:

A harpoon to the heart
Of my white whale
We're already halfway myth

Fleeing violent life cycles
mysticised in tiny archipelagic
resemblances

Two faces of a spinning coin
Converge to form a third
For a moment looks like mine

And the song reminds me of
Another song
Symbiotic tropical heat

Alloyed charms
Inundated in orisons
Ossify in telepathic dreaming

Worlding away in one hand
In the other forgetting
What it means

Darn 2: Mythologies

- Gan wynebu ‘worlding’, mae’r darn nesaf yn hongian ar y wal i’ch chwith wrth i chi ddilyn terfyn allanol yr ystafell, gyferbyn â drws yr oriel.
- Mae'r darn hwn, 'Mythololologies', yn cynnwys 4 amwled efydd hirgrwn, tua maint eich cledr ac yn hongian yn hydredol.
- Maent yn hongian gyda thua metr rhwng pob un, ar hyd y wal hir, pob un â'r un glas cryf a'r darn testun wedi'i baentio fel hirgrwn hydredol mawr y tu ôl iddynt.
- Mae pob un wedi'i hongian â gwifren bysgota, gan edrych fel pe baent yn hongian bron yn hudolus yng nghanol yr awyr.
- Mae pob amwled yn hongian tua lefel â'ch wyneb, ychydig o flaen y wal. Mae dau wyneb yr hirgrwn wedi'u haddurno, a gallwch symud o'u cwmpas i brofi'r ddwy ochr.
- Mae'r amwledau wedi'u castio o efydd ac wedi'u siapio fel medalau mawr, trwm, ond maen nhw'n edrych fel pe bydden nhw'n feddal ac yn hyblyg o hyd.
- Mae pob un o'r amwledau tua modfedd o drwch, gyda dolen efydd denau wedi'i mowldio ar ben pob hirgrwn i'w hongian ohono.

- Mae'r amwledau'n archwilio'r gred Ffilipinaidd mewn talismonau, 'anting-anting', ac yn ymgorffori cyfeiriadau hanesyddol a phersonol. Mae gan bob amwled ei bŵer a'i nodweddion unigryw ei hun.

- Mae'r amwled cyntaf o'ch dde, o'r enw 'Love Team', yn cynnwys 'Guy & Pip' wedi'i ysgrifennu ar un ochr mewn ffont 3D, dolennog, rhamantus, ac ar yr ochr arall mae tair priflythyren floc cydgloëdig, o 'MLT' mewn cerfwedd ('relief') 3D. Mae'r amwled hwn yn cyfeirio at ddiwylliant poblogaidd yn y Ffilipinau ac mae'n dalismon ar gyfer eglurder emosiynol.

- Mae gan yr ail amwled ar hyd y chwith, ‘Warp’, batrwm grid wedi’i argraffu ar y ddwy ochr, wedi’i ysbrydoli gan wehyddu Ffilipinaidd. Mae Medaliwn Gwyrthiol Catholig wedi’i gastio ar ben y grid ar un ochr; mae ei gadwyn yn lwpio dros ben yr amwled i groesi i’r ochr arall.

- Mae'r ddelweddaeth Gatholig o'r amwled hwn yn cyfeirio at amddiffyniad, ynddo'i hun, ac yn gweithredu fel cofeb i drais gwladychu crefyddol. Ei phŵer yw amddiffyn rhag niwed ac egni echdynnol.

- Mae gan y trydydd amwled, ‘Communion’, ddau amser wedi’u hargraffu ar y naill ochr a’r llall, yn null sgrin hen gloc larwm digidol. Mae un ochr yn darllen ‘4:59’, amser sy’n gysylltiedig â breuddwydio eglur, a’r ochr arall yn darllen ‘11:59’, yr amser sydd 7 awr ymlaen yn y Ffilipinau.
- Mae'r amwled hwn yn dal y pŵer i ysgogi telepathi, a chyfathrebu â theulu o bell yn y byd breuddwydion.
- Mae'r amwled wedi'i baru â gwely sydd yng nghanol yr ystafell, y tu ôl i chi wrth i chi wynebu'r amwled yma.
- Mae'r gwely’n is na uchder y pen-glin, ac mae ganddo ffrâm bren drwchus, gadarn, gyda llinynnau wedi'u gwehyddu ar draws y ffrâm yn lle matres. Mae dwy glustog wedi'u gwneud o ffabrig naturiol, tebyg i hessian, gyda thrim adlewyrchol o leiniau a chregyn. Mae blanced flodeuog lliw terracotta o Philippine Airlines wedi'i drapio dros y gwely yn anniben, fel pe bai rhywun wedi newydd ddod allan ohono.

- Gan droi’n ôl at yr amwledau, mae gan yr amwled olaf ar hyd y wal, ‘Bayanihan’, haul yn null baner y Ffilipinau ar un ochr, a chaban Nipa ar yr ochr arall, wedi’i ddarlunio’n syml trwy linellau arddull matsys. Mae’r amwled hwn yn dal y pŵer i ysgogi gweithrediad ar y cyd.

Darn 3: Agimat a Swynbethau:

- Wrth droi i'ch chwith o'r amwledau, gan ddilyn ar hyd terfyn allanol yr ystafell, rydych chi'n dod at ddarn fideo, 'Agimat'.
- Mae'r fideo yn weddol uchel ar sgrin sy'n hongian o'r nenfwd, ac mae'n para 3 munud sy wedyn yn ail-adrodd. Mae'r fideo yn dawel heblaw am sŵn cloc nawr ac yn y man, fel darn arian yn cael ei ollwng.
- Mae ansawdd y fideo yn rhyfedd – mae'n edrych yn hen ffasiwn oherwydd ansawdd meddal graenog y ffilm super 16mm, ond mae'r lluniau'n newydd, gan wneud iddo deimlo fel rhywbeth o freuddwyd.
- Mae'r ffilm yn dangos taith sy'n ail-olrhain ymweliad y bardd Allen Ginsberg â Dyffryn Llanddewi Nant Honddu, gan ddangos golygfeydd y tu mewn i gar yn edrych trwy'r ffenestr flaen o'r seddi cefn, wrth i amwled hongian, yn troelli, o'r drych ôl.
- Yn torri ar draws hyn mae clipiau o wahanol amwledau wedi'u hongian yn erbyn cefndir glas meddal.
- Mewn un rhan o'r fideo mae tri swynbeth yn troelli fel petaech chi newydd wedi weindio llinyn a'i ollwng. Maen nhw i gyd yn symud yn annibynnol mewn rhythmau gwahanol i'w gilydd. Mae'r gloch yn swnio o bryd i'w gilydd wrth iddyn nhw siglo.
- Wrth i chi droi i'r chwith i'r wal olaf yn yr ystafell, mae dau gas gwydr.
- Mae gan y cas ar y dde flwch clir tal tuag uchder y frest, lle mae 13 amwled wedi'u hongian gan wifren bysgota denau, fel pe baent yn hofran.
- Dyma casgliad personol Sadia Pineeda Hameed’s o swynbethau, ac y mae rhai ohonynt yn ymddangos yn y darn fideo. Maen nhw i gyd yn eithaf bach, yn amrywio o fag bach coch tywyll, fel yr un y byddech chi'n storio clustdlysau ynddo, i gerrig bach a medaliynau metel.
- Tua'r gwaelod mae cragen hirgrwn hardd, y tu mewn iddi yn lliw cregynem hufen. Mae tyllau bach yn rhedeg i lawr cromlin y gragen mewn llinell.

- I'r chwith o'r cas hwn mae'r ail gas, sy'n sefyll tuag uchder y gwasg. Mae casgliad o swynbethau yn gorwedd ar ben sgwâr ffabrig glas tywyll, o dan gas gwydr clir.

- Dyma swynbethau o gasgliad Edward Lovett, o Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Maent yn cynnwys gwrthrychau fel darnau arian, cregyn a cherrig

- Ar y chwith ganol, mae swynbeth sy'n gerfiad o bysgodyn bach du o Indonesia, gyda manylion addurnedig wedi'u peintio'n aur. Ar y chwith uchaf mae dwy garreg heg - hagstones - sef cerrig bach brown gyda thyllau yn eu canol, y credir bod ganddynt nodweddion hudolus ac iachâd. Tua'r dde ganol mae cragen fach wen gydag wyneb cwmpawd hynod fach wedi'i osod yn y canol. Swynbethau lwc ffodus Japaneaidd oedd y rhain, ond daethant yn boblogaidd yn y Deyrnas Unedig hefyd.

- Mae gwahanol darddiadau, deunyddiau ac ystyron y swynbethau hyn yn archwilio beth sy'n digwydd i egni swynbeth pan gaiff ei symud ar draws y byd.

- Mae rhestr print bras o'r holl wrthrychau hyn ar gael ar gais, neu ar gael i'w gwrando fel rhan o'r disgrifiad sain hwn.

Darn 4: MMMM Note:

- I'r chwith o'r casys hyn, mae un cas hirsgwar llorwedd arall sy'n arddangos y wasg wreiddiol a'r nodyn, o nodiadau llafur Robert Owen. Y nodiadau hyn oedd yr ysbrydoliaeth uniongyrchol ar gyfer y darn terfynol, MMMM NOTE, sydd i'w weld ar y bwrdd posteri y tu allan i'r oriel, a fersiwn fach mewn ffrâm ar y wal i'r chwith o'r cas hwn.
- Mae'n anodd gweld y manylion yn y cas – ar y chwith mae plât metel gyda manylion mân wedi'u hysgythru ynddo, i'r dde mae darn **mwy** o gerdyn brown sy'n fframio nodyn afliwiedig, melynaidd yr un maint a siâp â'r plât ysgythru. Mae'r disgrifiad oddi tano yn darllen, 'Time Note used by Robert Owen, 1832'

- Mae'r fersiwn lai o MMMM Note yn hongian mewn ffrâm hirsgwar llorwedd wen i'r chwith o'r cas, i'r dde o'r drws y daethoch i mewn ohono.

- Gallwch wrando ar y disgrifiad ohono fan hyn, neu deithio allan gyda'r disgrifiad sain i ble mae'n hongian fel comisiwn bwrdd posteri mawr.

- Mae'r print ar siâp nodyn banc mawr. Fe'i crëwyd mewn cydweithrediad â'r artist Kerstin Kartscher.

- Mae lluniadau llinellau du a thestun yn ffurfio delwedd mewn arddull nodiadau banc, y llinellau'n gymysgedd diddorol rhwng geometrig ac anhyblyg, a llinellau brasluniol rhydd a llac.

- Yng nghanol top y nodyn mae'r gair, ‘Dream’ mewn priflythrennau bloc du, gyda motiff rhwyd yn rhaeadru i lawr ohono. Mae dyluniad rhydd wrth yr ymyl, gyda lluniadau o ddolenni metel cydgloedig ym mhob cornel ond y gwaelod ar y dde, sy'n adleisio'n uniongyrchol y rhai o nodyn llafur Robert Owens.

- Mae motiffau gwahanol wedi'u gwasgaru drwy'r nodyn: mae pobl mor fach nes eu bod nhw fel dotiau yn cerdded dros linellau ar waelod y nodyn; mae llun o gloc dant y llew mewn ffrâm hirgrwn wedi'i dynnu ar y canol ar y dde, wedi'i adlewyrchu gan ffrâm wydr gwag wedi torri ar yr ochr chwith.

- Mae pedair llythyren M fawr yn rhaeadru'n groeslinol i lawr o'r canol i gornel dde'r nodyn.

- Crëwyd nodyn llafur gwreiddiol Robert Owens i geisio cyfnewid gwaith teg trwy werthfawrogi amser pawb yn gyfartal. Mae'r gair ‘Energies’ mewn priflythrennau gwyn wedi'i ysgrifennu ar waelod chwith y nodyn, lle mae’r uned ariannol ‘two hours’ wedi'i ysgrifennu ar nodyn llafur Robert Owens.

- Mae MMMM Note yn myfyrio ar arian cyfred dychmygol ac am rinweddau anhygyrch breuddwydiol. Creodd Hameed y nodyn fel, ‘amwled ar gyfer dyfodol lle mae breuddwydio’n gynhyrchiol, a gorffwys yn fath o wrthwynebiad.’

MMMM Note ar fwrdd posteri tu allan:

- Os oes angen cymorth ychwanegol arnoch i gyrraedd y comisiwn bwrdd posteri mae staff wrth law i ofyn, ar y ddesg flaen bob amser.

- I gyrraedd y comisiwn bwrdd posteri, wrth i chi gamu allan o'r oriel mae trim fach yn y drws wrth i'r llawr newid i bren tywyll y siop.

- Mae gan y siop silffoedd a chasys o amgylch yr ymyl, yn ogystal â bwrdd mawr yn y canol sy'n arddangos eitemau.

- Wrth i chi gerdded ymlaen o'r oriel, gallwch ddefnyddio'r bwrdd canol fel canllaw gyda'ch llaw dde, gan droi i'r dde wrth i chi gyrraedd cornel bellaf y bwrdd.

- Parhewch i ddilyn ymyl y bwrdd ymlaen tuag at y ffenestr, gan gymryd dau gam pellach ar ôl i chi gyrraedd pen y bwrdd.

- Yna trowch i'r chwith a symudwch drwy'r drws, lle mae trim fach wrth i'r llawr newid eto i arwyneb llyfn llwyd. Mae cas gwydr i'r dde o'r drws.

- Wrth i chi fynd i mewn, o'r siop i'r brif dderbynfa, mae'r caffi yn syth o'ch blaen a'r brif ddesg i'r chwith. Os symudwch i mewn i'r dderbynfa a throi i'r dde, ychydig gamau o'ch blaen mae'r drws i du allan.

- Mae'r carped o flaen y drws yn ddeunydd gwrymiog, ac mae trontol y drws ar y dde, ac mae'n agor tuag i mewn.

- Mae gris bach tua 30cm o ddyfnder i lawr i'r patio o'r drws.

- Mae'r llawr a'r llwybr yn gerrig llwyd mawr gyda porfa rhyngddynt. Wrth i chi symud ymlaen ar y patio mae bolards metel ar y naill ochr a'r llall i wahanu ardal fach y caffi o'r llwybr.

- Ychydig gamau o'r drws mae'r llwybr cerrig llwyd. Trowch i'r dde a dilynwch y llwybr i fyny ychydig o inclein, gyda porfa ar y naill ochr

a'r llall i'r llwybr ac adeilad yr oriel ar eich ochr dde. Cymerwch ofal gan fod y cerrig ychydig yn anwastad.

- Ychydig fetrau ar hyd y llwybr, mae'n mynd yn llawer tywyllach wrth i chi symud o dan orchudd coed.

- Yna mae'r llwybr yn torri'n ddau ac yn parhau i'r dde, lle mae'n troi'n darmac. Dilynwch y tarmac ar hyd y llwybr, gan fod yn ymwybodol o'r ddau orchudd grât metel, gyda lympiau cyffyrddol, ar ddechrau'r llwybr.

- Tua phedwar metr ar hyd y llwybr tarmac hwn, stopiwch a throwch i'r dde a byddwch yn dod i wynebu'r comisiwn bwrdd posteri, sydd ar wal yr oriel o'ch blaen.

- I'ch chwith, yn cario ar hyd y llwybr, a 3 hediad o risiau gydag ymylon wedi'u peintio'n felyn yn arwain i fyny i'r stryd.

- Mae'r bwrdd posteri wedi'i osod yn uchel ar draws y wal las tywyll y tu allan, gyda phedwar poster A1 portread ar gyfer yr arddangosfeydd ar hyn o bryd, a'r caffi wedi'u fframio oddi tano. Porfa yw'r tir islaw pe baech chi'n camu'n agosach at y wal oddi ar y llwybr, ac mae yna ostyngiad bach.

- Mae'r print ar siâp nodyn banc enfawr. Fe'i crëwyd mewn cydweithrediad â'r artist Kerstin Kartscher.

- Black line drawings and text make up a bank note style image, the lines an interesting mix between geometric and rigid, and free and loose sketchy lines.

- In the centre of the top of the note is the word, ‘Dream’ in block black capitals, with a net motif cascading down from it. There is a loose border design, with drawings of interlocked metal loops in all corners but the bottom right, which seem to directly echo those of the Robert Owens labour note.

- Different motifs are scattered through the note: tiny people so small they are like dots walk over lines at the bottom of the note; a dandelion clock in a frame is drawn on the centre right, mirrored by an empty broken glass frame on the left side.

- Four large letter Ms cascade diagonally down from the centre to the right corner.

- Robert Owens' original labour note was created to seek fair exchange of work by valuing everyone's time equally. The word, 'Energies' in white block capitols is written on the bottom left of the note, where the currency of 'two hours' is written on Robert Owens' labour note.

- MMMM Note speculates on other imagined currencies and dream like intangible qualities. Hameed created the note as, 'an amulet for a future where dreaming is productive, and rest is a form of resistance.'